



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Canllaw i'r cyhoedd ar godi pryder am weithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Canllaw i aelodau'r cyhoedd ar godi pryder ynghylch gweithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig

Dylai gweithiwr gofal cymdeithasol ddarparu safon uchel o ofal i chi, aelod o'ch teulu neu unrhyw un rydych yn ei adnabod sy'n derbyn gwasanaethau gofal. Mae'n ofynnol i bob gweithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig weithio'n unol â'r safonau a bennwyd yn y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*.

Fel ffordd o sicrhau'r gofal hwn o safon uchel, mae'n rhaid i bob gweithiwr cymdeithasol, y rheiny sy'n rheolwyr mewn gofal cymdeithasol a gweithwyr mewn gofal preswyl i blant, fod wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt wneud y canlynol:

- meddu ar y cymwysterau iawn i weithio ym maes gofal cymdeithasol
- diweddarau'u hyfforddiant
- cytuno i weithio i safonau a bennwyd mewn *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*
- talu ffi gofrestru, tra'u bod wedi'u cofrestru.

Os yw rhywun yn codi pryder difrifol ynglŷn â'r gofal a dderbyniwyd gan unigolyn cofrestredig, gallai'r unigolyn hwnnw gael ei dynnu oddi ar y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol ac ni fyddai'n gallu gweithio ym maes gofal cymdeithasol wedyn.

Gallwch weld a yw'ch gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol wedi cofrestru drwy wirio'r Gofrestr yn gofalcymdeithasol.cymru

Agorodd y Gofrestr i weithwyr gofal cartref yn 2018 a bydd cofrestru yn dod yn orfodol o 2020. Bydd y Gofrestr yn agored i weithwyr cartrefi gofal i oedolion o 2020, a bydd cofrestru'n orfodol o 2022.

Codi pryder

Os ydych chi'n pryderu ynghylch lefel y gofal rydych chi neu rywun rydych yn ei adnabod wedi'i derbyn, neu yn ei derbyn, gan weithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru, dylech godi'ch pryder gyda chyflogwr yr unigolyn yn y lle cyntaf.

Os nad ydych chi'n hapus gyda'r ymateb gan gyflogwr yr unigolyn, gallwch godi'ch pryder gyda ni os yw'r gweithiwr gofal cymdeithasol wedi cofrestru gyda ni. Bydd angen i chi ddarparu rhywfaint o wybodaeth ategol.



Gallwch godi pryder trwy lenwi'r ffurflen fer ar ein tudalennau addasrwydd i ymarfer yn gofalcymdeithasol.cymru/addasrwydd-i-ymarfer/codi-pryder neu drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt ar ddiwedd y canllaw hon.

Beth sy'n digwydd ar ôl i chi godi pryder gyda ni?

Byddwn yn edrych ar eich pryder ac yn ystyried a yw'r wybodaeth a ddarparoch yn amau p'un a yw'r unigolyn yn 'addas i ymarfer'.

Mae bod yn 'addas i ymarfer' yn golygu bod gweithiwr gofal cymdeithasol yn gweithio'n unol â'r safonau yn y *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*. Mae'n golygu nad oes unrhyw resymau, fel cyflawni trosedd, bod yn esgeulus neu'n anonest, a allai effeithio ar ei swydd fel gweithiwr gofal cymdeithasol neu'i gofrestrriad gyda ni.

Gall pryderon ymwneud â:

- rhywbeth y mae gweithiwr wedi'i wneud neu fethu ei wneud
- rhywbeth a ddigwyddodd tra bod y gweithiwr yn y gwaith neu du allan i'r gwaith
- rhywbeth a allai fod wedi digwydd naill ai pan oedd neu pan nad oedd wedi cofrestru gyda ni
- mater sydd wedi digwydd yng Nghymru neu du allan i Gymru.

Os cynhaliwn ymchwiliad pellach i'ch pryder, byddwn yn cysylltu â chi i gael rhagor o wybodaeth, ac i ofyn i chi ddarparu unrhyw dystiolaeth a all fod gennych. Byddwn hefyd yn cysylltu â'r unigolyn cofrestredig a'i gyflogwr i gael gwybodaeth a thystiolaeth ynglŷn â'ch pryder. Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth a ddarparwch gyda phartïon eraill, gan gynnwys yr unigolyn cofrestredig.

Mewn rhai achosion, oherwydd y math o bryder a godir, efallai y caiff gweithiwr ei atal o'r Gofrestr, neu efallai y pennir cyfyngiadau ar ei waith am gyfnod dros dro tra bod yr ymchwiliad yn cael ei gynnal.

Ar ddiwedd yr ymchwiliad, os penderfynwn nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'ch pryder, bydd yr achos yn cael ei gau.

Os nad ydym yn mynd ar drywydd eich pryder oherwydd diffyg dystiolaeth, nid yw hyn yn golygu nad ydym yn eich credu o angenrheidrwydd – gall olygu nad oes digon o dystiolaeth i fynd â'ch pryder ymhellach.

Os penderfynwn fod dystiolaeth nad yw'r gweithiwr yn addas i ymarfer ar hyn o bryd, gallwn benderfynu:

- cynnig rhybudd i'r gweithiwr a fydd yn dangos ar y Gofrestr



Gofal Cymdeithasol **Cymru** Social Care **Wales**

- cynnig ymgymeriad i'r gweithiwr, er enghraifft, cwblhau hyfforddiant erbyn dyddiad penodol a fydd yn dangos ar y Gofrestr
- anfon yr achos yn uniongyrchol at banel addasrwydd i ymarfer – bydd penderfyniad y panel a'r rheswm dros y penderfyniad yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan a bydd ar gael ar y Gofrestr hefyd.

Nid cosbi gweithwyr gofal cymdeithasol am eu gweithredoedd yw ein pwrpas, ond yn hytrach gweithio gyda nhw i wella'u hymarfer i safonau disgwylidig.

Cysylltu â ni

Tîm addasrwydd i ymarfer

I gael gwybodaeth am ymchwiliad i achos, cysylltwch â'r:

Tîm addasrwydd i ymarfer: 029 2078 0545 neu aiy@gofalcymdeithasol.cymru

Gwrandawiadau

I gael gwybodaeth am wrandawriad ar achos, cysylltwch â'r:

Tîm gwrandawiadau: 029 2078 0505 neu gwrandawiadau@gofalcymdeithasol.cymru

Cyfeiriad: Gofal Cymdeithasol Cymru, South Gate House, Wood Street,
Caerdydd CF10 1EW

Gwefan: gofalcymdeithasol.cymru